

LLAWLYFR MODIWL

ECSP6002C

**Profiad Addysgu Proffesiynol gyda
SAC**

TAR UWCHRADD

LEFEL 6

CYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

2018-2019

Mae gwybodaeth bellach am y modiwl hwn i'w gweld yn *Llawlyfr Partneriaeth yr Uwchradd*, sydd ar gael o dan y cod modiwl hwn (ECSP6002C) ar Moodle.

Arweinydd y Modiwl

Os gwelwch yn dda, cysylltwch gyda **Rachel Bendall** (rachel.bendall@uwtsd.ac.uk) os oes gennych gwestiynau am y modiwl – bydd hwn yn ein helpu i gadw'n cyfathrebiad yn gyson.

Manylion y Modiwl

AMCAN(ION)

- I alluogi myfyrwyr i fodloni'n llwyddiannus y gofynion cyfredol statudol a geir yng Nghymru am ddyfarniad SAC yn eu pynciau arbenigol drwy brofiad addysgu fesul cam proffesiynol a gynorthwyr.
- I hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus myfyrwyr sydd am fod yn athrawon ysgolion uwchradd o fewn cyd-destun ymholi adfyfyriol, beirniadol.
- I ddarparu cyfleoedd ehangach, lle bo'n addas, er mwyn bod myfyrwyr yn cael profiad addysgu o fewn cyfnod uwchradd ehangach.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Ddangos eu bod wedi cyflawni safonau SAC ar draws yr ystod oedran uwchradd yn eu pynciau arbenigol.
- Ymchwilio, cynllunio, paratoi a gweithredu profiadau dysgu effeithiol addas yn ystod y tymor canol a'r tymor byr, gan gymhwyso'n effeithiol y Fframwaith Sgiliau a'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, a sicrhau ymddygiad a dysgu sicrhau y dysgwyr.
- Dangos eu dealltwriaeth a'u gweithredu o ystod eang o faterion sy'n ymwneud ag addysg pobl ifanc, gan gynnwys rôl fugeiliol athrawon, Y Cwricwlwm Cymreig (YCC), Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a lles ysbrydol a moesol dysgwyr.
- Dangos annibyniaeth briodol a chyfrifoldeb proffesiynol mewn perthynas â pholisïau ac arferion yr ysgol/ coleg, athrawon, atebolrwydd cyfreithiol, a chreu perthnasau gwaith da gyda chydweithwyr.
- Adfyfyrio yn feirniadol ar eu datblygiad o ran addysgu, eu cyrhaeddiad a lles mewn modd systematig, er mwyn hysbysu anghenion a datblygiad proffesiynol pellach a threfnu eu datblygiad proffesiynol a'u dysgu drwy ystod o ffynonellau gwybodaeth a chyflwyno'r prosesau hyn yn briodol.

CYNNWYS DANGOSOL

Caiff myfyrwyr gymorth bugeiliol cyfredol drwy gydol y modwl hwn.

Tymor 1 Prifysgol-Seiliedig

Paratoi ar gyfer PAP1 gan gynnwys:

- Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer athrawon ar lefel y Ganolfan, a lefelau cenedlaethol a sefydliadol. Goblygiadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant.
- Cyflwyno Safonau SAC a goblygiadau.
- Lles y dysgwr, egwyddorion diogelu a phryderon addysg fugeiliol.
- Gwybodaeth pwnc ac archwiliadau hyder o fewn pynciau.

PAP-Seiliedig (os gwelwch yn dda, cyfeiriwch hefyd at *Lawlyfr Partneriaeth yr Uwchradd*)

- Cynefino ar gyfer PAP1. Nodweddion ac arferion cymdeithasol-ddiwyllynnol sefydliadau addysg.
- Sefydlu disgwyliadau proffesiynol ar gyfer SAC.
- Sut caiff dysgu ei drefnu a'i reoli.
- Cyflwyno polisiau, gweithdrefnau ac arferion priodol.
- Arsylladau fesul cam bwriadol ar addysgu.
- Trefniadau pontio Cynradd/ Uwchradd.
- Systemau bugeiliol a rôl y tiwtor.
- Creu'r amgylchiadau iawn ar gyfer dysgu – rheoli ymddygiad.
- Gweithio gyda gweithwyr addysgol proffesiynol eraill.
- Cyflwyno fesul cam addysgu pwnc ac asesu.
- Defnyddiau a wneir o TGCh wrth addysgu pwnc ac asesu.
- Rhaglen a gynorthwyr o asesu'r cynnydd mewn addysgu yn ffurfiannol ac yn grynodol.
- Adolygu ac adrodd ar gynnydd yr athro dan hyfforddiant.
-

Tymor 2 Prifysgol-Seiliedig

Paratoi ar gyfer PAP2 gan gynnwys:

- Adolygu'r cynnydd ar PAP1 a Chynllunio Gweithredu i'r dyfodol.
- Adolygu gwybodaeth pwnc a hyder.
- Gwneud ceisiadau am swyddi a'r broses ddethol. Ffair recriwtio athrawon.
- Egwyddorion a goblygiadau asesu ar gyfer dysgu ac asesu dysgu.
- Cynhwysiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth ym myd addysg. Goblygiadau ar gyfer dysgwyr AAA, AY a Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Gweithredu YCC ac ADCDF.
- Gweithio gyda rhieni a gwarcheidwaid. Asesu a systemau adrodd eraill.
- Agweddau heriol ABCh; lles, addysg am gyffuriau ac addysg rhyw a pherthnasau.

PAP-Seiliedig (os gwelwch yn dda, cyfeiriwch hefyd at *Lawlyfr Partneriaeth yr Uwchradd*)

- Cynefino ar gyfer PAP2. Sefydlu disgwyliadau proffesiynol ar gyfer SAC.
- Gweithio gyda Chynllun Gweithredu'r athro dan hyfforddiant.
- Cyflwyno'r cymwysiadau addysgu a'r broses ddethol.
- Arsylladau fesul cam bwriadol ar addysgu.
- Cyflwyno fesul cam addysgu pwnc ac asesu.
- Gwaith mwy trylwyr ac eang mewn rhai meysydd e.e. hyrwyddo meddwl a dysgu ar lefel uwch, asesu a chofnodi gwaith a chynnydd y dysgwyr.
- Defnyddiau gwell o TGCh wrth addysgu pwnc ac asesu.
- Addysgu gyda mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth.
- Rhaglen a gynorthwyr o asesu'r cynnydd mewn addysgu yn ffurfiannol ac yn grynodol.
- Adolygu cynnydd yr athro dan hyfforddiant, ac adroddiad interim ar y cyrhaeddiad.

Tymor 3 Prifysgol-Seiliedig

Paratoi ar gyfer PAP2 gan gynnwys:

- Cofrestru gyda'r CyngACC a'r Broses Dechrau Gyrfa. Cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Dadansoddi data a gwelliant. Defnyddio data i wella'r addysgu a'r dysgu.
- Llwybrau dysgu 14-19, Bagloriaeth Cymru a newid i'r cwricwlwm.
- Paratoi am 'Profiad Cyfoethogi' opsiynol ar gyfer myfyrwyr priodol.

PAP-Seiliedig (os gwelwch yn dda, cyfeiriwch hefyd at *Lawlyfr Partneriaeth yr Uwchradd*)

- Gweithio gyda Chynllun Gweithredu'r athro dan hyfforddiant.
- Addysgu pwnc ac asesu pellach.
- Gwaith mwy trylwyr ac eang mewn rhai meysydd e.e. datblygu dilyniannau dysgu ac addysgu rhyngweithiol. Ymchwilio i a chreu adnoddau dysgu gwahaniaethol.
- Ymchwil a gwerthuso addysgu pwnc a gyfoethogir, dysgu a'r cwricwlwm.
- Defnyddiau gwell o TGCh wrth addysgu pwnc ac asesu.
- Addysgu ac asesu gydag annibyniaeth ac ymreolaeth.
- Rhaglen a gynorthwyr o asesu'r cynnydd mewn addysgu yn ffurfiannol ac yn grynodol.
- Adolygu cynnydd yr athro dan hyfforddiant, ac adroddiad crynolod ar y cyrhaeddiad.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Mae myfyrwyr yn ymgymryd ag o leiaf dau gyfnod estynedig o Brofiad Addysgu Proffesiynol a gynorthwyr mewn dwy ysgol bartner a cholegau / neu golegau am gyfanswm o 24 wythnos, a chânt eu cynorthwyo, monitro a'u hasesu gan arweinwyr cwricwlwm / diwtoriaid y Brifysgol a'r uwch fentoriaid a mentoriaid PAP. Cynhelir y paratoi prifysgol-seiliedig ar gyfer y Modwl hwn mewn dosbarthiadau cwricwlwm arbenigol lle caiff y systemau cymorth cyffredin, monitro ac asesu eu gosod yn sicr o fewn anghenion penodol pob pwnc uwchradd.

Bydd y strategaethau addysgu a dysgu mewn ysgolion / colegau yn cynnwys y canlynol:

- Tiwtorialau a chyfarfodydd wythnosol gyda Mentoriaid i adolygu'r cynnydd.
- Sesiynau a chyflwyniadau wythnosol gan Uwch Fentoriaid.
- Hyfforddiant gan Uwch Fentoriaid / Mentoriaid ac Arweinwyr Cwricwlwm / Tiwtoriaid.
- Arsylliadau anffurfiol ar wersi gan Fentoriaid, yn ogystal ag adborth ysgrifenedig, a'r targedau wedi'u cofnodi mewn Llyfrau Sylwadau ar Wersi.
- Pedwar arsylliad ffurfiol ar wersi gan Fentoriaid, un gan Uwch Fentoriaid ac un gan Arweinwyr Cwricwlwm / Tiwtoriaid (mwy os oes angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr), gydag adborth ysgrifenedig ar Ffurflen Arsyllu ar Wersi ynghyd â chyfarfod dilynol, er mwyn creu deialog proffesiynol a darparu adborth geiriol.
- Arsyllu adfyfyriol a disgwrs.
- Arsyllu canolbwytiedig ar ymarferwyr proffesiynol medrus drwy ddefnyddio trywyddau disgyblion ac arsylliadau sy'n targedu arferion penodol yn yr ystafell ddosbarth e.e. rheoli ymddygiad, holi, ayyb.
- Ymchwil a gwerthuso sy'n seiliedig ar yr ystafell ddosbarth.
- Addysgu mewn pâr, cydweithredol ac unigol.
- Grwpiau trafod gyda chymedrolwr.

Darllen Allweddol

Rhowch amser i ddarllen yn ehangach. Mae'n ddisgwyliedig eich bod yn cefnogi'ch trafodaethau llafar ac ysgrifenedig gyda darllen.

Denby, N. (2012) Ed *Training to Teach: A guide for Students*, 2nd Edition, London: Sage

Ellis, V. (2012) Eds *Learning and Teaching in Secondary Schools: Achieving QTS*, 4th Edition, Exeter: Learning Matters

Beadle, P. (2010) *How to Teach*, Carmarthen: Crown House Publishing

Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2009) Eds *Learning To Teach in the Secondary School: A Companion to School Experience*, 6th Edition, London: Routledge

Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2010) Eds *Readings for Learning to Teach in the Secondary School: A Companion to M Level Study*, London: Routledge

Cohen, L., Manion, L., Morrison, K. and Wyse, D. (2010) *A Guide to Teaching Practice*, 5th Edition, London: Routledge

Kyriacou, C. (2007) *Essential Teaching Skills*, 3rd Edition, London: Simon and Schuster

Mitchell, N. and Pearson, J. (2012) Eds *Inquiring in the Classroom: Asking the Questions that Matter about Teaching and Learning*, London: Continuum

Muijs, D. and Reynolds, D. (2011) Eds *Effective Teaching: Evidence and Practice*, 3rd Edition, London: Sage

Petty, G. (2009) *Teaching Today: A Practical Guide*, 4th Edition, London: Nelson Thornes

Tanner, H. and Jones, S. (2006) *Assessment: A Practical Guide for Secondary Teachers*, London: Continuum

Dogfennau polisi a chwricwlwm allweddol

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2015) ar gael ar:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynllun gweithredu strategol, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2016) ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160316-national-literacy-and-numeracy-programmes-cy.pdf>

Cymwys am Oes, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2014) ar gael ar:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf>

Asesu ar gyfer Dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2013) ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlnf-cy.pdf>

Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio Diwygiedig (clip byr), Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2014) ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-introductory-video/?lang=cy>

Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio Diwygiedig: Cwestiynau Cyffredin, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2014) ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-faq/?lang=cy>

Fframwaith Sgiliau Skills, Caerdydd: Llywodraeth Cymru (2014) ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140626-skills-framework-for-3-19-year-olds-cy.pdf>

Manylion Sesiynau'r Brifysgol

Caiff sesiynau'r Brifysgol ar gyfer y modiwl hwn eu haddysgu yn ystod sesiynau astudiaethau cwricwlaidd. Caiff cysylltiadau trawsgwricwlaidd a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) eu gwneud lle bo'n briodol.

Wedi'u cymryd o'r cynnwys dangosol uchod, dyma'r math o agweddau ar ddysgu ac addysgu medrwch eu hastudio o safbwynt pwnc-penodol mewn sesiynau astudiaethau cwricwlaidd ymhob pwnc. Efallai y bydd trefn astudio'r agweddau hyn yn amrywio o bwnc i bwnc:

Sesiynau'r Brifysgol	
Asesu	Gan gynnwys asesu ffurfiannol a chrynodol, a'r defnydd o asesu ar gyfer cefnogi, sgaffaldio a monitro dysgu.
Rheolaeth dosbarth	Gan gynnwys y defnydd o adnoddau, rheolaeth amser, gwaith grŵp, a rheoli ymddygiad.
Gwahaniaethu	Gan gynnwys gwahanol ddulliau o wahaniaethu drwy dasg, sgaffaldio, grwpio a chynlluniau eistedd.
Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD)	Gan gynnwys cynllunio ar gyfer datblygu cymhwysedd digidol lle'n briodol.
Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)	Gan gynnwys cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau ADCDF lle'n briodol.
Cyfnod Allweddol 3 (CA3)	Gan gynnwys gofynion dysgu, addysgu ac asesu.
Cyfnod Allweddol (CA4)	Gan gynnwys gofynion dysgu, addysgu ac asesu.
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)	Gan gynnwys cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd lle'n briodol.

Cynllunio	Gan gynnwys prif egwyddorion cynllunio, e.e. y berthynas rhwng amcanion y wers, gweithgareddau dysgu, gwirio dealltwriaeth, herio camdybiaethau ac asesu.
Ôl-16	Gan gynnwys gofynion dysgu, addysgu ac asesu.
Proffesiynoldeb	Gan gynnwys Cod Ymddygiad y Myfyriwr/wraig a gofynion SAC.
Defnydd o'r Gymraeg	Caiff y Gymraeg ei datblygu ymhellach yn ystod sesiynau <i>Cymraeg i Bawb</i> ar brynhawn dydd Mercher.
Y Cwricwlwm Cymreig	Gan gynnwys cynllunio gwersi o fewn y cyd-destun Cymreig lle'n briodol.

Manylion Asesu

Cod y Modiwl	Teitl y Modiwl	Dull asesu
ECSP6002C	Profiad Addysgu Proffesiynol gyda SAC	Aseiniad ysgrifenedig (5000 o eiriau)
ECSP6002C	Profiad Addysgu Proffesiynol gyda SAC	Asrylwadau gwersi ffurfiannol ac adroddiadau crynodedol yn ystod PAP 1 & 2

Canllawiau ar gyfer yr Aseiniad Ysgrifenedig

Teitl eich aseiniad (5000 o eiriau) ydy:

Portffolio Datblygiad Proffesiynol (PDP)

Caiff canllawiau pellach, gan gynnwys templed i strwythuro'ch gwaith, eu rhannu gyda chi erbyn diwedd mis Hydref.

Y dyddiad cau ar gyfer yr aseiniad PDP ydy:

31/05/19

Marcio'r aseiniad ysgrifenedig

Caiff yr aseiniad ysgrifenedig ei farcio gan ddefnyddio meini prawf asesu Lefel 6. Caiff y meini prawf asesu eu rhannu gyda chi erbyn diwedd mis Hydref.